Prentisiaethau

# Urdd Gobaith Cymru

# Polisi Camymddwyn Proffesiynol a Chamweinyddu

(Adran Prentisiaethau)

Fersiwn 4

Cyhoeddwyd: Ebrill 2023

## Polisi Camymddwyn Proffesiynol a Chamweinyddu

*(Malpractice and Maladministration)*

### Diffiniadau

a) Mae'r polisi yma yn weithredol ar gyfer **staff Adran Prentisiaethau'r Urdd** neu staff sydd yn gweithredu ar ran Adran Prentisiaethau'r Urdd.
Mae unrhyw waith gyda phrentis neu ar gyfer prentis (yn cynnwys gwaith asesu) yn cyfri fel gwaith ar ran yr adran Prentisiaethau.

b) Mae'r polisi hefyd yn weithredol i unrhyw unigolion sy'n gallu cael ei **adnabod fel dysgwr** yn ymgymryd ag hyfforddiant drwy Adran Brentisiaethau Urdd Gobaith Cymru.
Diffiniwyd **dysgwr** fel unrhyw unigolyn a chofrestrwyd gan Adran Brentisiaethau Urdd Gobaith Cymru ar gyfer unrhyw gwrs neu gymhwyster gyda chorff gwobrwyo.

c) Mae Camymddwyn Broffesiynol yn cael ei ddiffinio fel unrhyw gweithredu neu esgeulustod bwriadol sy'n anfoesol neu anghyfreithlon, neu'n cyfaddawdu uniondeb statws yr Adran Prentisiaethau.

d) Camweinyddu yw unrhyw gweithredu sydd ddim yn fwriadol, ond sy'n esgeuluso neu fynd yn erbyn rheoliadau, neu'n cyfaddawdu uniondeb statws yr Adran Prentisiaethau.

Mae Adran Prentisiaethau Urdd Gobaith Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel yn eu amgylcheddau dysgu a drwy gwahardd unrhyw camymddwyn proffesiynol neu gamweinyddu o dan rheolaeth yr Adran neu yn ddarpariaeth o'i gymwysterau. Mae Adran Prentisiaethau Urdd Gobaith Cymru yn anelu at hyrwyddo atebolrwydd ac i annog gweithio agored ar allu i unigolion datgelu honiadau o gamymddwyn proffesiynol neu gamweinyddu.

Mae'r **Pennaeth Prentisiaethau'n** yn gyfrifol am sicrhau bod y polisi yma yn cael ei gyhoeddi, gweithredu ac ar gael i holl staff, dysgwyr a rhanddeiliaid perthnasol. Bydd y Pennaeth Prentisiaethau yn sicrhau bod holl staff perthnasol wedi darllen a deall y polisi a bod unrhyw newidiadau yn cael eu cyfathrebu gyda hwy.

Fe ddylai dysgwyr cael eu hysbysebu ynglŷn â'r polisi yn ystod y broses anwytho a bydd y polisi ar gael iddynt hwy ar wefan yr Urdd ac ar y system e-portffolio.

## Amcanion

Prif amcan y polisi yw osgoi neu reoli unrhyw effeithiau negyddol a all godi o gamymddwyn proffesiynol neu gamweinyddu. Fe all esiamplau o hwn cynnwys:

- Dysgwr yn cyflawni llên-ladrad drwy gopïo neu gyfieithu gwaith rywun arall a'i chyflwyno fel ei gwaith ei hun heb gydnabod yr awdur.
- Peidio â chydymffurfio gyda chyfarwyddiadau'r aseswr neu oruchwyliwr a/neu peidio cydymffurfio gyda rheoliadau'r corff gwobrwyo.
- Camddefnyddio deunydd asesu, gan gynnwys rhoi mynediad at bapurau prawf o flaen llaw neu roi gwybod i ddysgwyr ynglŷn â chynnwys y papur.
- Cyflawni gwaith ar ran unigolyn neu ofyn i unigolyn cyflawni gwaith ar eich cyfer
- Camddefnyddio trefniadau 'addasiadau rhesymol'
- Dysgwr neu aseswr yn bihafio mewn ffordd y gall tanseilio uniondeb yr asesiad, gymhwyster neu'r sefydliad
- Aseswr neu diwtor ddim yn sicrhau dealltwriaeth personol o reoliadau a rheolau cymwysterau sbesiffig
- Ffugio a / neu newid canlyniadau a/neu dystiolaeth, dogfennau a gwneud hawliadau ffug am dystysgrifau.

## Canlyniadau posib o Gamymddwyn Proffesiynol a Chamweinyddu

**I staff:**

a) Mae yna ddyletswydd ar Adran Brentisiaethau Urdd Gobaith Cymru i adrodd Camymddwyn Proffesiynol a Chamweinyddu at y cyrff gwobrwyo perthnasol ac at y Cyngor Gweithlu Addysg. Mae yna fodd i hwn arwain at ymarferydd yn cael ei gwaredu o'r Gofrestr Gweithlu Addysg. https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/priodoldeb-i-ymarfer/beth-yw-priodoldeb-i-ymarfer.html
b) Fe all Camymddwyn Proffesiynol a Chamweinyddu arwain at broses disgyblu - Gweler Polisi Disgyblu Urdd Gobaith Cymru. Mae hwn wedi manylu o fewn Llawlyfr Staff Urdd Gobaith Cymru.

**I ddysgwyr:**

a) Fe all Camymddwyn Proffesiynol a Chamweinyddu arwain at y dysgwr yn cael ei gwahardd o'r Cynllun Dysgu a pheidio cyflawni'r cymwysterau a chofrestrwyd ar ei chyfer.

**Polisi Camymddwyn Proffesiynol a Chamweinyddu**
**(Adran Prentisiaethau)**

Fersiwn 4

Ebrill 2023

Arwyddwyd



**Sian Lewis**
**Prif Weithredwr**

## Gweithdrefn adrodd achos o Gamymddwyn Broffesiynol neu Gamweinyddu

Llenwi'r ffurflen Adrodd Achos o Gamymddwyn Proffesiynol neu Gamweinyddu (gweler isod) a'i chyflwyno i'r Pennaeth Prentisiaethau. Os yw'r achos yn erbyn y Pennaeth Prentisiaethau, dylai'r ffurflen gael ei gyflwyno i'r Cyfarwyddwr Chwaraeon a Phrentisiaethau.

↓

Bydd y Pennaeth Prentisiaethau a'r Cyfarwyddwr Chwaraeon a Phrentisiaethau yn cynnal ymchwiliad i'r mater o fewn 14 diwrnod.

↓

Yn dilyn yr ymchwiliad, bydd un (neu fwy nag un) o'r canlynol yn cael eu gweithredu:

a) Dim achos o Gamymddwyn Proffesiynol neu gamweinyddu yw ateb – Dim gweithredu pellach
b) Achos i'w ateb - dysgwr yn derbyn rhybudd ysgrifenedig.
c) Achos i'w ateb – dysgwr yn cael eu gwahardd o'r cynllun.
d) Achos i'w ateb - aelod o staff yn cychwyn ar broses disgyblu. (Gweler polisi Urdd Gobaith Cymru)
e) Achos yw ateb - cyfeirio'r achos at y Corff Gwobrwyo a/neu'r Cyngor Gweithlu Addysg

**Ffurflen adrodd achos o Gamymddwyn Proffesiynol / Camweinyddu**

Dylai'r ffurflen yma cael ei ddefnyddio gan unrhyw person sydd am adrodd achos o gamymddwyn proffesiynol neu gamweinyddu.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r person yn adrodd yr achos: | | | |
| Rôl y person yn adrodd yr achos: | | | |
| Teitl y cymhwyster: (Os yn addas) | | | |
| Enwau y rheini y mae'r achos yn eu herbyn | | | |
| Manylion yr achos | | | |
| | | | |
| Llofnod | | Dyddiad | |

I’w gwblhau gan y Pennaeth Prentisiaethau / Cyfarwyddwr Chwaraeon a Phrentisiaethau

| Dyddiad yr ymchwiliad | |
|---|---|
| Manylion yr ymchwiliad | |
| | |
| Allbwn | |
| a) Dim achos o Gamymddwyn Proffesiynol neu gamweinyddu i’w ateb – Dim gweithredu pellach | |
| b) Achos i’w ateb - dysgwr yn derbyn rhybudd ysgrifenedig. | |
| c) Achos i’w ateb – dysgwr yn cael eu gwahardd o’r cynllun. | |
| d) Achos i’w ateb - aelod o staff yn cychwyn ar broses disgyblu. (Gweler polisi Urdd Gobaith Cymru) | |
| e) Achos yw ateb - cyfeirio’r achos at y Corff Gwobrwyo a/neu’r Cyngor Gweithlu Addysg | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gweithredoedd pellach | | | |
| Llofnod | | Dyddiad | |